# Matrics sgiliau Cymraeg

## Disgrifiadau cyffredinol o lefelau

| Lefel | Disgrifiad |
|---|---|
| **Lefel 0 – Ymwybyddiaeth** | **Rydych yn gallu:**<br>Adnabod rhai geiriau byr, syml fel rhai Cymraeg a dyfalu ystyr rhai geiriau pan fyddwch yn eu darllen neu glywed, cyhyd ag y bod yr unigolyn yn siarad yn araf iawn neu eich bod yn darllen y geiriau mewn cyd-destun esboniadol. Wedi i chi glywed geiriau syml nifer o weithiau, gallwch eu hailadrodd a hyd yn oed ysgrifennu rhai geiriau byr. Er na fyddwch efallai'n ystyried y sgiliau hyn yn ddefnyddiol iawn yn y gweithle, mae'r iaith yn bell o fod yn estron i chi, ac mae gennych sylfaen gadarn y gallwch ei defnyddio i ddatblygu eich sgiliau. Yn bwysicach na hynny, bydd gennych ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gref o'r amgylchedd dwyieithog y mae Swyddfa Archwilio Cymru'n gweithredu ynddo a'r angen i drin y ddwy iaith yn gyfartal, a byddwch yn sensitif i anghenion siaradwyr Cymraeg. Rydych yn ymwybodol o'r hyn y gallwch ei wneud i sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal ac i ddiwallu anghenion ieithyddol holl randdeiliaid, e.e. defnyddio gwasanaethau cyfieithu priodol, defnyddio sgiliau ieithyddol cydweithwyr. |
| **Lefel 1 – Mynediad** | **Rydych yn gallu:**<br>Deall a defnyddio ymadroddion pob dydd sy'n gyfarwydd os yw'r siaradwr yn siarad yn araf ac yn glir, ac yn fodlon helpu. Cyflwyno eich hun i eraill a gofyn ac ateb cwestiynau am fanylion personol sylfaenol, e.e. ble mae rhywun yn byw, gweithio, yr hyn maen nhw'n hoffi ei wneud, yr hyn sydd ganddynt, a'r hyn a wnaethant. Deall testunau byr iawn lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth sylfaenol am eu hunain neu eraill, e.e. ar ffurflenni. Cyfleu neges seml neu wneud cais syml, e.e. drwy e-bost. |
| **Lefel 2 – Sylfaen** | **Rydych yn gallu:**<br>Deall brawddegau pan fydd pobl yn siarad yn araf am sefyllfaoedd pob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol sylfaenol neu wybodaeth am eu teulu, siopa, yr ardal leol, cyflogaeth, a'r hyn maent wedi ei wneud neu y byddent yn ei wneud. Cynnal sgwrs sylfaenol â rhywun arall am destun pob dydd cyffredin, e.e. gwaith, hobïau, hoffterau, pethau sydd wedi digwydd neu gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Deall negeseuon am bethau pob dydd a llythyrau/e-byst syml. Ysgrifennu nodyn syml i ffrindiau/cydweithwyr, e.e. er mwyn trosglwyddo neges. |

| Lefel | Disgrifiad |
|---|---|
| **Lefel 3 – Canolradd** | **Rydych yn gallu:**<br>Deall y prif bwyntiau wrth i rywun siarad am bynciau cyffredin neu rai pob dydd, neu pan gaiff materion yn ymwneud â gwaith eu trafod, e.e. mewn sgwrs, neu mewn cyfarfod grŵp bach. Cynnal sgwrs estynedig gyda siaradwr Cymraeg rhugl ar bwnc cyfarwydd sy'n ymwneud â bywyd pob dydd, e.e. hobïau, teithio, neu destunau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwaith. Disgrifio profiadau a digwyddiadau, gobeithion ac uchelgeisiau, a rhoi rhesymau ac esboniadau bras o'ch barn a'ch cynlluniau. Deall erthyglau neu e-byst syml am bynciau pob dydd sy'n ymwneud â gwaith. Ysgrifennu llythyr/e-bost am y rhan fwyaf o destunau, gofyn am bethau, rhoi gwybodaeth, gwahodd rhywun i ddigwyddiad neu drefnu digwyddiad. |
| **Lefel 4 – Uwch** | **Rydych yn gallu:**<br>Dilyn y rhan fwyaf o sgyrsiau neu drafodaethau fel arfer, hyd yn oed am destunau anghyfarwydd, oni bai bod rhywun yn siarad ag acen gref anghyfarwydd, e.e. mewn cynhadledd. Sgwrsio'n hyderus â siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â bywyd pob dydd neu'r gwaith, ac yn gallu mynegi eich safbwyntiau, cynnal trafodaeth, a siarad yn fanwl am bynciau cyffredinol, e.e. mewn cyfarfod, neu mewn sefyllfa un-i-un. Deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, erthyglau papurau newydd, ac adroddiadau sydd wedi eu hanelu at siaradwyr Cymraeg rhugl gyda chymorth geiriadur, a sganio drwy destunau hir er mwyn dod o hyd i fanylion. Ysgrifennu erthyglau, adolygiadau neu adroddiadau byr am amrywiaeth o bynciau cyffredinol eu natur, neu rai sy'n ymwneud â byd gwaith, ac ymateb yn fanwl gywir i'r rhan fwyaf o fathau o ohebiaeth gan ffynonellau mewnol ac allanol. |
| **Lefel 5 – Hyfedredd** | **Rydych yn gallu:**<br>Deall yn hawdd y mwyafrif helaeth o'r hyn rydych yn ei glywed neu ddarllen. Siarad yn fanwl am faterion cymhleth, cyflwyno dadleuon, ac arwain trafodaethau. Crynhoi gwybodaeth o wahanol ffynonellau llafar ac ysgrifenedig, gan ail-lunio dadleuon ac esboniadau mewn cyflwyniad cydlynol. Mynegi eich hun yn ddigymell mewn modd rhugl a chywir iawn, gan addasu eich arddull yn ôl y gynulleidfa, e.e. mewn cyd-destun anffurfiol neu ffurfiol. |

## Disgrifiadau o feysydd sgiliau unigol

| Lefel | Siarad | Gwrando | Darllen | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel 0 – Ymwybyddiaeth** | Rydw i'n gallu ailadrodd rhai geiriau sylfaenol, syml wedi i mi eu clywed yn aml. | Rydw i'n gallu adnabod rhai cyfarchion pob dydd syml, e.e. “bore da”, “diolch”, os yw'r person yn siarad yn araf iawn. | Rydw i'n gallu adnabod rhai geiriau Cymraeg sylfaenol, byr. Rydw i hefyd yn gallu dyfalu ystyr rhai geiriau pan fyddan nhw'n codi mewn cyd-destun sy'n eu hesbonio. | Rydw i'n gallu ysgrifennu gair byr yn y Gymraeg heb lawer o gymorth. |
| **Lefel 1 – Mynediad** | Rydw i'n gallu defnyddio rhai ymadroddion pob dydd, e.e. “bore da”, “diolch”. Rydw i hefyd yn gallu ynganu enwau llefydd, pobl a sefydliadau. Rydw i'n gallu trafod materion personol mewn sefyllfa anffurfiol, e.e. diddordebau, teulu, gwaith, yr hyn a wnaethoch ddoe. Rydw i hefyd yn gallu trafod pynciau sylfaenol, e.e. y tywydd, amser, prisiau. | Rydw i'n deall ymadroddion pob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn os yw'r siaradwr yn siarad yn araf. Rydw i'n gallu deall sgyrsiau am wybodaeth bersonol sylfaenol, e.e. lle mae rhywun yn byw, gweithio, yr hyn maen nhw'n hoffi ei wneud, yr hyn a wnaethant. Rydw i'n gallu dyfalu'r hyn mae rhywun yn ei ddweud wrth iddo roi manylion am ddigwyddiad, megis amser a lle. | Rydw i'n gallu deall ymadroddion byr iawn, ac yn gallu dyfalu ystyr rhai hysbysiadau. Rydw i'n gallu deall testunau byr lle mae pobl yn rhoi gwybodaeth sylfaenol am eu hunain neu am eraill. Rydw i fel arfer yn dod o hyd i fanylion, megis amser a chost, mewn hysbysebion neu hysbysiadau. | Rydw i'n gallu ysgrifennu ymadroddion neu frawddegau syml iawn am fy hun neu am eraill. Rydw i hefyd yn gallu trosglwyddo neges seml neu wneud cais syml, e.e. drwy e-bost. |

| Lefel | Siarad | Gwrando | Darllen | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel 2 – Sylfaen** | Rydw i'n gallu cynnal sgwrs sylfaenol â rhywun am destun pob dydd cyffredin, cyhyd ag y bod y siaradwr arall yn fy helpu. Rydw i'n gallu gofyn ac ateb cwestiynau am bynciau cyfarwydd, e.e. gwaith, hobïau, hoffterau, pethau sydd wedi digwydd neu gynlluniau ar gyfer y dyfodol. | Rydw i'n deall pan fydd pobl yn siarad am sefyllfaoedd pob dydd, e.e. gwybodaeth bersonol, gwaith, yr hyn maen nhw wedi ei wneud, cyhyd â'u bod yn siarad yn araf. Rydw i'n deall pan fydd pobl yn gofyn i mi neu eraill i wneud rhywbeth, a phan fyddent yn holi am gynlluniau ar gyfer y dyfodol, e.e. yn gofyn am gyfarfod. | Rydw i'n deall negeseuon am bethau pob dydd, a rhai llythyrau neu e-byst syml iawn, e.e. gofyn am rywbeth, neu ofyn i anfon neges ymlaen. Rydw i hefyd yn gallu deall darnau byr o destunau neu lyfrau syml iawn, e.e. llyfrau i blant. | Rydw i'n gallu ysgrifennu nodyn byr i ffrind neu gydweithiwr yn gofyn am rywbeth, yn diolch iddynt, neu'n esbonio rhywbeth, e.e. absenoldeb o'r gwaith. Rydw i hefyd yn gallu ysgrifennu darn byr am bwnc cyfarwydd, e.e. profiad personol, neu brofiad sy'n ymwneud â'r gwaith. |
| **Lefel 3 – Canolradd** | Rydw i'n gallu cynnal sgwrs estynedig gyda siaradwr rhugl am bwnc cyfarwydd, e.e. diddordebau neu'r gwaith. Rydw i'n gallu mynegi barn a chyfnewid gwybodaeth am amrywiaeth o destunau sy'n ymwneud â bywyd pob dydd, e.e. hobïau, teithio, neu destunau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith. | Rydw i'n deall gwybodaeth am destunau cyffredin neu rai pob dydd, neu pan fydd materion sy'n ymwneud â gwaith yn cael eu trafod, e.e. mewn sgwrs, neu mewn cyfarfodydd grŵp bach. Rydw i fel arfer yn deall y brif neges a'r manylion, cyhyd ag y bod pobl yn siarad yn glir, e.e. pan wneir cyhoeddiadau neu wrth wrando ar fwletinau newyddion. | Rydw i'n gallu deall erthyglau byr a syml am destunau pob dydd sydd o ddiddordeb i mi, neu sy'n ymwneud â'r gwaith. Rydw i'n gallu dyfalu ystyr geiriau o'r cyd-destun, pan fo'r testun yn gyfarwydd. Rydw i'n deall y rhan fwyaf o e-byst a dogfennau sy'n ymwneud â'r gwaith. | Rydw i'n gallu ysgrifennu llythyr am y rhan fwyaf o destunau, yn gofyn am bethau, yn rhoi esboniadau, yn disgrifio profiadau, yn gwahodd pobl, neu'n trefnu digwyddiad. Rydw i'n gallu ysgrifennu'n weddol gywir am y testunau mwyaf cyfarwydd, e.e. rhai sy'n ymwneud â fy niddordebau neu'r gwaith. |

| Lefel | Siarad | Gwrando | Darllen | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel 4 – Uwch** | Rydw i'n gallu siarad yn hyderus â siaradwyr rhugl am bynciau cyfarwydd sy'n ymwneud â bywyd pob dydd neu'r gwaith. Rydw i'n gallu mynegi safbwyntiau, cynnal trafodaeth, a siarad yn fanwl am destunau cyffredinol, e.e. mewn cyfarfod neu mewn sefyllfa un-i-un. | Rydw i fel arfer yn deall y rhan fwyaf o sgyrsiau neu drafodaethau, hyd yn oed am destunau nad ydw i'n gyfarwydd â nhw. Rydw i'n deall y rhan fwyaf o raglenni teledu a radio ar gyfer siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, oni bai bod gan y siaradwr acen gref, anghyfarwydd. | Rydw i'n deall y rhan fwyaf o ohebiaeth, ac yn frasddarllen testunau hir i ddod o hyd i fanylion. Rydw i'n deall y rhan fwyaf o erthyglau ac adroddiadau papur newydd ar gyfer siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, gyda chymorth geiriadur. Rydw i'n deall nofelau a thestunau eraill, oni bai eu bod wedi eu hysgrifennu mewn arddull ffurfiol iawn neu dafodieithol iawn. | Gallaf ysgrifennu erthygl, adolygiad neu adroddiad byr am amrywiaeth o bynciau cyffredinol, neu rai'n ymwneud â byd gwaith, gan ddefnyddio gramadeg sy'n eithaf cywir. Gallaf hefyd ysgrifennu testunau manwl a strwythuredig sy'n briodol ar gyfer y darllenydd. Rydw i'n ymateb yn gywir i'r rhan fwyaf o fathau o ohebiaeth gan gydweithwyr neu gysylltiadau allanol. |
| **Lefel 5 – Hyfedredd** | Rydw i'n mynegi fy hun yn llawn ac yn gywir, hyd yn oed wrth drafod materion cymhleth. Rydw i'n addasu arddull fy iaith yn ôl y gynulleidfa, e.e. wrth siarad mewn cyd-destun ffurfiol neu wrth sgwrsio â ffrindiau. Rydw i'n gallu siarad yn fanwl am fater cymhleth, cyflwyno dadleuon, ac arwain trafodaethau. | Rydw i'n gallu deall yn hawdd pob sgwrs a thrafodaeth rhwng eraill, a hynny am bob math o destun. Rydw i'n deall pob math o Gymraeg llafar, gan gynnwys darlithoedd neu drafodaethau cymhleth. | Rydw i'n gallu darllen a deall bron unrhyw destun ysgrifenedig yn y Gymraeg yn hawdd, gan gyfeirio at eiriadur dim ond yn achlysurol. Rydw i'n gallu darllen testunau hir, e.e. adroddiadau, erthyglau, er mwyn dod o hyd i fanylion perthnasol ac yn gallu deall bron pob math o ysgrifennu, e.e. ffurfiol neu anffurfiol. | Gallaf ysgrifennu testunau estynedig, adroddiadau, erthyglau, cofnodion neu fathau eraill o ysgrifennu mewn arddull sy'n briodol i'r darllenydd. Rydw i'n gallu ysgrifennu mewn Cymraeg ffurfiol neu anffurfiol fel y bo angen. Rydw i'n gallu ysgrifennu'n ramadegol gywir am amrywiaeth eang o destunau. |